awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

RHONDDA CYNON TAF

CHWARTER 3

ADRODDIAD PERFFORMIAD

ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf

2025–26

Mae'r adroddiad hon yn crynhoi gweithgareddau Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn Y Muni rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2025 – **Quarter 3**.

Crynodeb:
Y MUNI

Y chwarter hwn oedd ein prysuraf ers ailagor, gyda 5,039 o ymwelwyr yn dod i'r Muni rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. O'r rhain, roedd 4,127 yn ddeiliaid tocynnau, bron i ddwbl ein cynulleidfa ar gyfer unrhyw chwarter blaenorol.

Un peth a wnaeth gyfrannu'n fawr i'r llwyddiant hwn, oedd ein partneriaeth barhaus gyda **Gŵyl Morfydd Owen**, mewn cydweithrediad â Parc Arts, Cyngor Tref Pontypridd, Amgueddfa Pontypridd, YMa a Chlwb y Bont. Yn dychwelyd am ei hail flwyddyn, roedd yr ŵyl yn cynnwys tri pherfformiad gan y gantores **Amy Wadge o Bontypridd**, gan ddod â chynulleidfaoedd newydd i'r lleoliad ac ehangu ein cyrhaeddiad rhanbarthol yn sylweddol, fel sydd i'w weld ar y mapiau isod. Mae brwdfrydedd Amy dros Y Muni a'n perthynas gref â hi eisoes wedi sicrhau y bydd yn dychwelyd ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Roedd cerddoriaeth fyw wreiddiol yn parhau i fod yn nodwedd gref o'r rhaglen, gyda sioeau roc gan **Phil Campbell a'r Bastard Sons**, a pherfformiadau gan **Ginger Wildheart and The Wildhearts**, y gantores-gyfansoddwraig canu gwlad **Ashley Campbell**, **Big Mac's Wholly Soul Band**, a gwnaeth y grŵp teyrnged **Fleetwood Mac**, **Seven Wonders**, werthu pob tocyn.

Am y tro cyntaf, cynhaliodd Cyngor Rhondda Cynon Taf, mewn partneriaeth â'r Lleng Brydeinig Frenhinol, eu Cyngerdd Gŵyl y Cofio teimladwy yn y Muni. Roedd perfformiadau'r noson yn cynnwys sioe rymus o flodau pabi yn rhaeadru o nenfwd y theatr, gan greu teyrnged wefreiddiol i gefnogi ein Lluoedd Arfon, o'r gorffennol a'r presennol.

Dathlwyd 20fed pen-blwydd RENT gan Jonathan Larson â dangosiad arbennig wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â Balchder RhCT. Mae'r tîm yn y Muni wrth eu boddau o chwarae rhan weithredol ar bwyllgor cynllunio Balchder RhCT, sy'n dod a dathliad eleni i Barc Ynysangharad ym Mhontypridd ym mis Gorffennaf. Gan gyd-fynd hefyd â'n hymrwymiad i gynhwysiant, mae'r Muni yn paratoi i gymryd rhan yn 'Troi Ponty'n Las' yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia ym mis Mai, yn dilyn cyfarfod cynllunio cychwynnol gyda Grŵp Dementia Pontypridd ym mis Rhagfyr.

Roedd ein tymor Nadolig yn cynnig cydbwysedd o ddigwyddiadau poblogaidd a thraddodiadol, gan gynnwys **That Christmas 80s Rock Show, a Lleisiau Nadoligaidd**, cyngerdd cymunedol sy'n arddangos Côr Cymunedol Pontypridd, grŵp acapela SOW a'r artist llafar Dai Woolridge. Wrth i'r Muni chwarae rhan ragweithiol ym Mhartneriaeth Tref a Diwylliant Pontypridd, mae'r tîm yn parhau i gydweithredu â sefydliadau creadigol a diwylliannol eraill ar draws y dref i sicrhau bod ymdrechion yn cael eu cydgysylltu ac ailadrodd yn cael ei osgoi.

Fe wnaethon ni barhau i hyrwyddo artistiaid sy'n datblygu trwy ein **nosweithiau bandiau misol**, wedi'u cryfhau'r chwarter hwn gan bartneriaeth archebu newydd gyda **Tiwn Media**. **Parhaodd nosweithiau comedi** yn Y Festri i dyfu, a **chafodd** drag cynhwysol ei ddathlu trwy **House of Deviant Hijinx**.

Fe wnaeth gweithgarwch sinema ehangu hefyd, gyda sesiynau ffilm a chrefftau teuluol misol, dangosiadau hamddenol a dangosiadau Theatr Genedlaethol Fyw, sy'n dechrau datblygu cynulleidfa ffyddlon ochr yn ochr â Chlwb Ffilmiau Vern. Mae ein cynnig cymunedol rheolaidd o Ddydd Gwener Cerddoriaeth Am Ddim, sesiynau Meic Agored a nosweithiau Cwis Cerddoriaeth yn parhau i ddod â phobl leol at ei gilydd, cynnig mannau cynnes a chroesawgar a chynnig mynediad am ddim at gelfyddydau a diwylliant. Diolch i gyllid allanol, fe wnaethom ni wella ein cynnig 'hyb cynnes' â the a chacennau am ddim ym mhob digwyddiad Dydd Gwener Cerddoriaeth Am Ddim yn ystod y chwarter hwn.

Dangosodd y chwarter hwn gynnydd sylweddol tuag at nodau strategol Awen, yn enwedig o ran bywiogrwydd diwylliannol a phrofiadau ar y cyd, gan leihau rhwystrau ac ehangu cyfranogiad, lles a chysylltiad cymdeithasol, a datblygu talent leol. Mae'r ffigurau isod yn dangos bod Y Muni yn datblygu i fod yn lleoliad rhanbarthol blaenllaw ar gyfer gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol sy'n cael eu hysgogi gan bartneriaeth, sy'n gynhwysol ac o ansawdd uchel, gan gefnogi twf economaidd lleol a dod â chymunedau at ei gilydd.


GŴYL
MORFYDD
FESTIVAL

Seven Wonders
The Sound Of
FLEETWOOD MAC

the WILDHEARTS

That
80s
CHRISTMAS
ROCK SHOW

National
Theatre
Live
Jack LOWDEN
Martin FREEMAN
The Fifth Step
Written by DAVID IRELAND
Directed by FINN DEN HERTOG


PHIL CAMPBELL
AND THE BASTARD SONS
KING KRAKEN
HAKAN

Astudiaeth Achos:
Y MUNI

AJ, CWMBACH

AJ, o Gwmbach, oedd un o'n cwsmeriaid cyntaf i fanteisio ar yr addasiadau i fan eistedd hygyrch Y Muni yn y balconi, pan ddaeth hi i weld gig Phil Campbell and the Bastard Sons ym mis Hydref.

"Mae dod â cherddoriaeth roc a metel i leoliad hygyrch, lleol wedi bod yn uchafbwynt fy 2025 i. Mor aml, mae grwpiau rwy'n eu hoffi yn chwarae mewn lleoliadau anhygyrch, felly mae cael Y Muni ar agor ac yn gwbl hygyrch o ran fy anghenion i yn wych. Mae'n ehangu fy myd yn sylweddol!

"Roedd y staff a'r gwirfoddolwyr yn barod iawn i helpu. Rhoddodd y toiled Changing Places bopeth yr oedd ei angen arnaf i ofalu am fy hun yn annibynnol. Roedd y bar i fyny'r grisiau yn agos at y balconi hygyrch yn golygu y gallwn i gymryd amser a dewis fy niod yn hytrach na dibynnu ar fy ngofalwr.

"Roedd y balconi ei hun yn wych. Doedd yr olygfa ddim wedi'i rhwystro, ac roedd y sain i fyny yno'n anhygoel. Yn aml, mae'r sain mewn mannau gwylio hygyrch wedi'i gyfaddawdu. Roedd lle i mi droi yn fy nghadair olwyn a mynd y tu ôl i'r rhes o seddi heb orfod gofyn i bobl symud, sy'n broblem arall rwy'n ei chael gyda llawer o fannau gwylio hygyrch."

Adborth Cwsmeriaid:
Y MUNI

"Dyma fy ymweliad cyntaf ers i'r lleoliad ailagor ac mae'r adnewyddiad yn wych."

"Roedd fy ymweliad diwethaf yno yn y 90au - mae wedi newid yn llwyr."

Dydd Gwener Cerddoriaeth Rhad ac am Ddim

"Fe wnes i fwynhau Loafus yn fawr, llais gwych, dewis gwych o ganeuon gan gynnwys ei rhai ei hun – byddaf yn cadw llygad amdani eto!"

"Llais gwych, merch hyfryd – fe wnes i fwynhau Bore Gwener Cerddoriaeth Rhad ac am Ddim gyda Loafus!"

"Gig gwych gan Tomas Lewis – fe wnaeth ganu'n dda heddiw."

"Fe wnaethon ni wir fwynhau gwrando ar Tomas y bore 'ma, diolch!"

Amy Wadge

"Hwn oedd fy mhumed tro yn gweld Amy ac roedd bod yn Y Muni yn ei gwneud yn arbennig iawn. Noson wych, cwrdd â phobl hyfryd a gweld talent mor anhygoel."

"Fe ddaethon ni ddydd Sul i weld Amy Wadge gan yrru o Wlad yr Haf. Noson wych, wrth fy modd, diolch."

"Roedd yn sioe anhygoel. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran! Mae'r Muni yn lleoliad hyfryd, clòs."

Y Wildhearts

"Noson mor anhygoel, hollol anhygoel."

"Wedi cael noson wych yn Y Muni, gig ffantastig."

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.